Atodiad A

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

**Nghyngor Caerdydd**
**Neuadd y Sir**
**Glanfa'r Iwerydd**
**Caerdydd**
**CF10 4UW**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2021**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd wedi'i leoli yn ninas Caerdydd ac mae ganddi boblogaeth o 369,000. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 127 o ysgolion. Mae 98 o ysgolion cynradd, gan gynnwys 15 ohonynt sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg, dwy ysgol ffrydiau deuol a thair ysgol meithrin a gynhelir. Mae 18 o ysgolion uwchradd, gan gynnwys tair ysgol cyfrwng Cymraeg. Hefyd, mae saith ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion.

Ymgymerodd y prif weithredwr â'r swydd yn 2013 a phenodwyd y cyfarwyddwr addysg yn 2020. Bu arweinydd y cyngor yn y swydd er 2017 ac ymgymerodd prif ddeiliad y portffolio gwasanaethau addysg â'r swydd yn 2015. Arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf yn 2011 ac fe'i rhoddwyd yn y categori gweithgarwch dilynol monitro gan Estyn. Mewn ymweliad dilynol yn 2014, canfuwyd bod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod lleol, ac fe arhosodd yn y categori hwn tan 2016.

Caerdydd yw un o'r pum awdurdod lleol yng Nghonsortiwm Canolbarth y De ar gyfer gwella ysgolion.

Yn 2020-2021, cyllideb addysg net y Cyngor oedd tua £360,114,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2021-22 yw £5,064, sef y 5ed uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 24.5% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20.4%. Yn unol â bron pob awdurdod lleol arall yng Nghymru, mae canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf.
- Mae 11.8% o ddisgyblion pump oed neu'n hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16.1%.
- Daw 35.1% o ddisgyblion pump oed neu'n hŷn o leiafrifoedd ethnig, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, sef 12.2%.
- Mae gan 16.6% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 19.5%.
- Roedd 132 o blant fesul 10,000 dan ofal yr awdurdod lleol yn 2021, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 115 o blant fesul 10,000.

## Crynodeb

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Caerdydd wedi dangos gwelliant cynaledig a chynyddol o ran ansawdd ac effeithiolrwydd ei wasanaethau addysg. Mae uwch arweinwyr yn rhannu gweledigaeth feiddgar ac uchelgeisiol i bob dysgwr, y maent yn ei chyfleu'n glir yn nogfen 'Uchelgais y Brifddinas'. Mae arweinydd y cyngor, aelod o'r cabinet a'r prif weithredwr yn pennu disgwyliadau uchel ar gyfer swyddogion, ysgolion a darparwyr eraill, ac mae ymrwymiad cryf aelodau etholedig a swyddogion ar bob lefel i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd yn amlwg iawn. Mae'r cyfarwyddwr addysg yn cefnogi'n llawn flaenoriaethau a gweledigaeth strategol 'Caerdydd 2030' a'r ymgyrch tuag at y strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant. Aliniodd y cyfarwyddwr cynorthwyol addysg a'i gywerth sy'n gyfrifol am ystadau sirol eu gwaith yn effeithiol ar hyd y pandemig. Caiff y gefnogaeth hon ei pharchu'n fawr gan arweinwyr ysgolion a lleoliadau.

Yn gyffredinol, bu deilliannau arolygiadau rhwng 2017 a mis Mawrth 2020 yn gryf, yn enwedig yn y sector cynradd. O'r 43 o ysgolion cynradd a arolygwyd yn ystod y cyfnod hwn, cafodd pedair ohonynt farnau rhagorol ar gyfer safonau, a 36 ohonynt farnau da.

Bu'r deilliannau i ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 4 uwchlaw neu ymhell uwchlaw'r disgwyliadau ym mwyafrif yr ysgolion yn y tair blynedd cyn y pandemig. Yn gyffredinol, bu deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) uwchlaw deilliannau'r un grŵp yn genedlaethol.

Mae swyddogion ar draws y gyfarwyddiaeth addysg yn cydweithio â'i gilydd yn gynhyrchiol i ystyried ystod o faterion mewn ysgolion. Mae eu dull cydgysylltiedig yn galluogi'r awdurdod lleol i gael dealltwriaeth gadarn o gyd-destunau unigol ei ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi meithrin perthynas waith gref â'r consortiwm rhanbarthol ac mae prosesau cadarn i gefnogi a herio ysgolion sy'n peri pryder. Ar hyn o bryd, nid yw partneriaid gwella yn ystyried blaenoriaethau strategol Caerdydd yn ddigon da, er enghraifft Addewid Caerdydd, yn eu dulliau o weithio ag ysgolion ac UCDau.

Mae strategaeth yr awdurdod lleol i ad-drefnu ei ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar ei weledigaeth ar gyfer sicrhau amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel i fodloni anghenion plant a phobl ifanc, fel yr amlinellir yn 'Caerdydd 2030'. Mae tîm y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion (RhTY) yn cynnig arweinyddiaeth a chyfarwyddyd bwriadus i helpu gwireddu'r strategaeth hon.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu gweledigaeth strategol sy'n cael ei deall yn glir ac sydd wedi'i llywio gan ymchwil i gefnogi ymgysylltiad ieuenctid a dilyniant i bobl ifanc ar ôl iddynt adael yr ysgol. Mae arweinyddiaeth wleidyddol a gweithredol gref o 'Addewid Caerdydd', drwy gynghrair uchelgeisiol ledled y ddinas, wedi ennyn cefnogaeth sylweddol gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys uwch arweinwyr busnesau, ysgolion a cholegau.

Mae strategaeth Addewid Caerdydd wedi manteisio ar feithrin cysylltiadau cryf a sicr â busnesau presennol, ac wedi bod yn gyfrwng grymus ar gyfer denu buddsoddiad gan sefydliadau y mae eu blaenoriaethau corfforaethol yn alinio â rhai'r cyngor.

Blaenoriaethau fel symudedd cymdeithasol a darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith i blant a phobl ifanc. Mae agweddau penodol ar y gwaith yn hynod effeithiol, er enghraifft cynnwys pobl ifanc mewn helpu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae gan yr awdurdod lleol Wasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr (EMTAS) sefydledig sy'n goruchwylio cymorth i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r gwasanaeth wedi addasu ei flaenoriaethau'n briodol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i helpu mynd i'r afael â'r patrwm cyfnewidiol o gymorth sydd ei angen ar ysgolion, disgyblion a'u cymunedau. Mae'r cymorth addysgol i geiswyr lloches yn agwedd arbennig o effeithiol ar y gwaith hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n dda â chyfarwyddiaethau eraill a phartneriaid i gynnig cymorth i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r strategaeth rhianta corfforaethol yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu cynhwysfawr sy'n amlinellu'n glir y cyfrifoldebau ar draws cyfarwyddiaethau fel addysg, tai a gwasanaethau plant, ac asiantaethau partner gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Heddlu De Cymru.

Mae gwasanaeth ieuenctid Caerdydd yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel mewn ardaloedd â blaenoriaeth yn y ddinas, sy'n cynnwys cymysgedd o waith mynediad agored a gwaith wedi'i dargedu. Mae pobl ifanc, yn yr ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu, wrth wraidd datblygu gwasanaethau. Mae cefnogaeth i iechyd a lles emosiynol pobl ifanc a'r defnydd effeithiol o blatfformau digidol yn agweddau arbennig o gryf ar ddarpariaeth.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn deall yn dda yr heriau eang y mae'r gwasanaeth addysg yn eu hwynebu. Maent yn cydnabod, mewn ychydig iawn o achosion, bod ansawdd gwerthuso ar lefel gwasanaeth neu dîm yn rhy amrywiol, sy'n rhwystro swyddogion rhag nodi a mynd i'r afael â meysydd y mae angen eu gwella. Er enghraifft, nid yw arweinyddiaeth ar lefel uwch swyddogion yn cynnig cyfeiriad strategol effeithiol bob tro er mwyn helpu symbylu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r ddinas. Hefyd, caiff ei gydnabod y bu gwasanaeth cwnsela'n wan o ran cefnogi anghenion lles plant a phobl ifanc.

## Argymhellion

A1 Gwella gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc

A2 Gwella ansawdd hunanwerthuso ar lefelau gwasanaeth a thîm ar draws y gyfarwyddiaeth

A3 Sicrhau bod gwaith y consortiwm rhanbarthol yn canolbwyntio’n briodol ar flaenoriaethau strategol Caerdydd

A4 Sicrhau arweinyddiaeth strategol glir a throsolwg o ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg

## Beth sy’n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi’r adroddiad arolygu, dylai’r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i’r afael â’r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd drwy’r broses arolygu. Dylai’r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi tair astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud ag Addewid Caerdydd, cymorth i geiswyr lloches a thrawsnewid gwaith ieuenctid, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Ni allwn roi gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn oherwydd effaith y pandemig COVID-19, a arweiniodd at atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020. Mae hefyd oherwydd y diffyg data ar ddeilliannau y gellir ei gymharu dros amser, gan i'r pandemig achosi newidiadau i'r ffordd y cafodd cymwysterau eu dyfarnu ac effeithio ar y rhan fwyaf o'r data arall rydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau mewn ysgolion a chyrchfannau dysgwyr ôl-16.

Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn rhoi cyd-destun drwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig, neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae'r sail dystiolaeth yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom saith o ysgolion uwchradd, 43 o ysgolion cynradd a dwy ysgol arbennig. Hefyd, arolygom ddau leoliad nas cynhelir. Barnom fod safonau'n rhagorol mewn dwy ysgol uwchradd, yn dda mewn dwy arall ac yn ddigonol mewn tair ohonynt. Barnom fod safonau'n dda mewn llawer o ysgolion cynradd ac yn rhagorol mewn pedair ohonynt. Mewn pum ysgol arall, barnwyd bod safonau'n ddigonol. Roedd safonau mewn ysgolion arbennig a gynhelir yn dda mewn un ohonynt ac yn ddigonol yn y llall. Mewn lleoliadau nas cynhelir, roedd safonau'n dda mewn un ohonynt. Yn y tri arall, nid oedd digon o blant i allu rhoi sylwadau. Mae barnau rhagorol ar gyfer safonau mewn ysgolion uwchradd yn uwch na'r rhai cenedlaethol, ac mewn ysgolion cynradd maent yn unol ag ysgolion eraill ledled Cymru. Ni chafodd unrhyw ysgol arbennig farn ragorol o gymharu ag ychydig yn llai nag un o bob tri'n genedlaethol.

Rhoddwyd dwy ysgolion gynradd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol, a rhoddwyd naw ysgol arall yn y categori gweithgarwch dilynol adolygu gan Estyn. O'r rhain, roedd pump ohonynt yn ysgolion cynradd, tair ohonynt yn ysgolion uwchradd ac un ohonynt yn ysgol arbennig. Mae un ysgol uwchradd yn y categori adolygu gan Estyn o hyd.

Bu safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 (2017-2019) mewn wyth ysgol yn gyson uchel ac ymhell uwchlaw'r disgwyliadau. Mewn wyth ysgol arall, mae safonau'n unol â'r disgwyliadau neu'n uwch, yn gyffredinol. Yn y ddwy ysgol sy'n weddill, mae safonau'n amrywiol mewn un ohonynt ac yn gyson islaw'r disgwyliadau yn y llall.

Yn gyffredinol, bu deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw rhai'r un grŵp yn genedlaethol. Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni 5 gradd A/A* yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar y cyfan, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar draws y cyfnodau allweddol, ond mae'r perfformiad yn unol â'r perfformiad ledled Cymru, yn gyffredinol. Mae'r bwlch mwyaf nodedig rhwng merched a bechgyn mewn llythrennedd.

Cyn y pandemig, roedd barnau arolygiadau ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu mewn ysgolion yng Nghaerdydd yn unol â'r rhai cenedlaethol, ac ni nodwyd bod

unrhyw ysgol yng Nghaerdydd yn anfoddhaol. At ei gilydd, roedd cyfraddau presenoldeb ysgol yn dda, er bod cyfran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson o ysgolion uwchradd yn cynyddu ac uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae gwaharddiadau'n parhau i effeithio'n anghymesur ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig. Er bod cyfraddau gwaharddiadau am gyfnod penodol yn lleihau'n raddol mewn ysgolion uwchradd, roeddent yn cynyddu'n sylweddol mewn ysgolion cynradd, ond mae'r gyfradd hon yn well na'r cyfartaledd yng Nghymru. Roedd cyfran y bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16 oed yn unol â chyfartaledd Cymru.

Yn ystod y pandemig, cefnogwyd plant a phobl ifanc drwy ystod o weithgareddau i gefnogi eu lles. Er enghraifft, cymerodd nifer sylweddol o bobl ifanc ran mewn gweithgareddau buddiol dan arweiniad y gwasanaeth ieuenctid, gan gynnwys gweithgareddau ar-lein arloesol. Cymerodd miloedd o blant a phobl ifanc ran yn y rhaglen 'Gwên o Haf' yn 2021 fel rhan o waith Caerdydd i fod yn 'Ddinas sy'n Dda i Blant', a ddarparodd ystod eang o weithgareddau ysgogol a dymunol i gefnogi eu lles. Fodd bynnag, bu nifer y plant a phobl ifanc sy'n manteisio ar wasanaeth cwnsela'r awdurdod yn gyffredinol, ac effaith y gwasanaeth hwn ar les plant a phobl ifanc, yn wan am nifer o flynyddoedd.

Mae plant a phobl ifanc yn manteisio'n rhwydd ar gyfleoedd i leisio eu barn. Maent yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt pan gânt gyfle i wneud hynny.

## Gwasanaethau addysg

Dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn pennu cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol cyfredol yr awdurdod lleol neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

### Pa mor effeithiol y mae'r her, cymorth ac ymyrraeth mewn ysgolion i alluogi pob dysgwr i wneud cynnydd da?

Yn ystod cyfnod y pandemig, cryfhaodd yr awdurdod lleol ei berthynas â'i ysgolion yn sylweddol. Trwy gydol y cyfnod hwn, creodd cyfathrebu gwell a ffocws crys ar les penaethiaid ymdeimlad o bartneriaeth a chydymddiriedaeth a chefnogaeth.

Yn y gyfarwyddiaeth, mae swyddogion ar draws timau yn cydweithio â'i gilydd yn gynhyrchiol i ystyried ystod o faterion mewn ysgolion. Maent yn ystyried gwybodaeth sydd ar gael iddynt o ystod o safbwyntiau ac yn alinio eu gwaith â blaenoriaethau strategol allweddol. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn galluogi'r awdurdod lleol i ennill dealltwriaeth gadarn o gyd-destunau unigol ei ysgolion. Ers dechrau'r pandemig, mae pob aelod o'r tîm rheoli estynedig yn gysylltiedig â chlwstwr o ysgolion sy'n cynnig rhagor o gyfleoedd i nodi agweddau pwysig ar ddarpariaeth ac arfer. Mae'r ffyrdd defnyddiol hyn o weithio yn golygu y caiff unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ysgolion eu rhannu â'r uwch dîm rheoli'n brydlon.

Mae'r awdurdod lleol wedi meithrin perthynas waith gref â phrif bartneriaid gwella o'r consortiwm rhanbarthol, ac mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi a herio ysgolion sy'n peri pryder.

Caiff cyfarfod Risg Pob Ysgol ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae swyddogion o ystod o dimau, fel adnoddau dynol, diogelu ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cyfrannu gwybodaeth werthfawr am bob ysgol. Caiff y cyfarfodydd hyn eu cadeirio gan brif bartneriaid gwella. Mae'r awdurdod lleol yn coladu gwybodaeth ac yn gwerthuso ymyriadau a gwaith partneriaid gwella yn effeithiol i gael darlun cyflawn o welliant ac ymyrryd mewn ysgolion mewn ffordd effeithlon. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion ysgolion yng Nghaerdydd, yn gyffredinol. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn wedi gwneud digon o gynnydd i'w tynnu o'r categori hwnnw. Yn gyffredinol, mae partneriaid gwella'n darparu gwerthusiad cadarn o gynnydd ar sail tystiolaeth uniongyrchol o ddarpariaeth ac arweinyddiaeth yn yr ysgolion hyn. Fodd bynnag, nid yw cyfraniadau gan bartneriaid gwella'n helpu swyddogion i ystyried sut gallai agweddau ar gymorth gysylltu â gwelliannau bob tro, er enghraifft mewn addysgu a phrofiadau dysgu.

Mae prif bartneriaid gwella'n rhannu gwybodaeth â phartneriaid gwella sy'n eu helpu i ddeall cyd-destunau unigol pob ysgol. Trwy gydol y pandemig, mae'r partneriaid gwella wedi ategu dull yr awdurdod lleol o gefnogi lles penaethiaid yn effeithiol. Maent yn glir mai eu briff yw cynorthwyo ysgolion mewn ffordd bwrpasol ac maent yn sensitif i'r cyd-destun cyfredol mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau partneriaid gwella'n ddigon gwerthusol bob tro. Mae gormod o amrywiad, er enghraifft, o ran sut maent yn adrodd ar agweddau allweddol ar waith yr ysgol, yn enwedig o ran addysgu a'r cwricwlwm. Ar ben hynny, nid yw eu gwaith yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol Caerdydd yn ddigon da, er enghraifft gwaith Addewid Caerdydd.

Ar gyfer ychydig iawn o ysgolion, mae cyfarfodydd y 'Tîm o Amgylch yr Ysgol' a gyflwynwyd yn ddiweddar iawn yn profi'n ffordd ddefnyddiol ychwanegol o sicrhau y caiff cymorth integredig ei gynnig i ysgolion lle mae pryderon penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys cynorthwyo ysgolion â diwygio anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth arall, fel cymorth i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae dulliau amrywiol o rannu arfer effeithiol ac arloesol rhwng ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r holl ysgolion yn gwybod sut i gael mynediad at y gwaith hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig ystod werthfawr o ddysgu proffesiynol i benaethiaid, athrawon a staff cymorth. Mae'r rhain yn ategu arlwy'r consortiwm rhanbarthol drwy gynnig cyfleoedd dysgu sydd wedi'u teilwra'n effeithiol i'r cyd-destun lleol. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen i benaethiaid newydd sy'n rhoi arweiniad ymarferol defnyddiol ar arwain ysgol yng Nghaerdydd, a chymorth i ysgolion roi'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol ar waith. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r arbenigedd yn ei dimau i gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n ategu blaenoriaethau strategol yr awdurdod lleol yn dda. Er enghraifft, mae'r tîm e-ddysgu wedi cydweithio ag ymarferwyr yn ystod y pandemig i greu 'gweithlu sy'n hyddysg mewn technoleg', ac mae cynorthwywyr addysgu wedi elwa ar hyfforddiant mewn dulliau llythrennedd.

Mae'r awdurdod lleol wedi elwa ar ei waith partneriaeth â sefydliadau addysg uwch i ddatblygu cyfleoedd dysgu i ymarferwyr. Trwy weithio â'r Brifysgol Agored, mae'r awdurdod lleol yn cynnig rhaglen sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dulliau addysgu a chynnwys ar gyfer dysgu o bell. I helpu ymarferwyr i ymgysylltu â datblygiadau'r

Cwricwlwm i Gymru, mae'r awdurdod lleol wedi lansio cwrs 'cyfrifiadura yn y cwricwlwm' mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe. Mae'r cwrs hwn yn cynorthwyo ymarferwyr i ystyried cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer cyfrifiadura, yn gysylltiedig â gwyddoniaeth a thechnoleg. Caiff y cwrs ei gyflwyno â phartneriaid yn y diwydiant drwy sesiynau ar-lein byw.

**Pa mor dda mae cynlluniau trefniadaeth ysgolion yr awdurdod lleol yn sicrhau darpariaeth addysg briodol i bob plentyn ac unigolyn ifanc, gan gynnwys darpariaeth cyn-ysgol?**

Mae strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer ad-drefnu ei ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar ei weledigaeth ar gyfer sicrhau amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel i fodloni anghenion plant a phobl ifanc, fel yr amlinellir yng nghynllun Caerdydd 2030.

Yn gyffredinol, mae tîm y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion (RhTY) yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad bwriadus i helpu gwireddu'r strategaeth hon. Mae gan y tîm RhTY rolau a chyfrifoldebau clir ac ystod addas o brofiad ac arbenigedd mewn cynllunio lleoedd ysgol. Maent yn defnyddio ystod dda o ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys arolygon cyflwr adeiladau, tystiolaeth ymchwil a data'n effeithiol i helpu llywio eu penderfyniadau strategol. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gyflwr, digonolrwydd ac addasrwydd eu hadeiladau ysgol. Mae'r tîm RhTY hefyd yn defnyddio ystod o bartneriaid a darparwyr allanol yn dda i ategu'r broses hon. Er enghraifft, gwnaethant gomisiynu arolwg o'r holl ysgolion a lleoliadau'n ddiweddar i bennu effeithlonrwydd adeiladau i lywio buddsoddiad yn y dyfodol a lleihau costau ynni. Mae hyn yn helpu'r tîm i gynllunio rhaglen fuddsoddi sylweddol dros y pum mlynedd nesaf i gefnogi'r gwelliannau gofynnol i tua dau draean o adeiladau ysgol. Er y rhannwyd y cynllun â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr ysgolion, cadeiryddion cyrff llywodraethol ac aelodau etholedig, mae'r tîm RhTY yn cydnabod yr angen i wella cyfathrebu ag ysgolion, yn enwedig yn ymwneud â chyflwyno'r rhaglen a blaenoriaethu atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw brys.

Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi'n dda mewn ystod o brosiectau cyfalaf yn ystod cam cyntaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru rhwng 2014 a 2019. Mae hyn wedi'i alluogi i wneud cynnydd da o ran sicrhau bod yr ysgolion priodol o'r math priodol yn y lleoedd priodol i fodloni anghenion ei ddysgwyr. Mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu buddsoddiad cynlluniedig i dros £284 miliwn ar gyfer y cyfnod pum mlynedd o 2019. Er bod cyflwyno'r rhaglen hon wedi'i ohirio rhywfaint oherwydd y pandemig COVID-19, mae'r tîm RhTY wedi sicrhau bod ymgynghoriadau a phrosesau penderfynu allweddol wedi parhau.

Yn gyffredinol, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn ystod addas o brosiectau cyfalaf i gynyddu nifer y lleoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r tîm RhTY yn cydnabod yr angen i fod yn rhagweithiol wrth gynllunio lleoedd ysgol i ysgogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas drwy'r Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (CSCM) 2022-32 drafft. Mae gan yr arweinyddiaeth wleidyddol ddealltwriaeth glir o'r gofyniad i gynyddu nifer y lleoedd ym mhob sector cyfrwng Cymraeg. Mae cynigion diweddar, fel yr ymgynghoriad i sefydlu ysgol dwy ffrwd newydd ar ddatblygiad tai Plasdŵr, yn gam cadarnhaol ac yn arwydd o ymrwymiad yr awdurdod lleol i gynyddu nifer y lleoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'i gynllun datblygu lleol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinyddiaeth ar lefel uwch

swyddogion yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol bob tro i helpu ysgogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r ddinas.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi ymgynghori ar gynigion i gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i helpu bodloni'r galw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer gwasanaethau a gwella'r amgylchedd dysgu. Mae cynigion diweddar, fel y rhai sy'n ceisio darparu lleoedd o ansawdd uchel mewn ysgolion arbennig cynradd i ddisgyblion ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol a lleoedd mewn Canolfannau ag Adnoddau Arbenigol i'r rhai ag anghenion cymhleth, wedi'u seilio ar egwyddorion priodol a byddant yn cynyddu nifer y lleoedd yn sylweddol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cydnabod yn briodol yr angen i gynyddu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg i fodloni'r galw cynyddol am gymorth arbenigol i ddisgyblion. Mae agor Canolfan ag Adnoddau Arbenigol cyfrwng Cymraeg newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch wedi cynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion ag ADY yn y sector cynradd. Mae cynlluniau tebyg i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY sydd angen cymorth arbenigol mewn ysgolion uwchradd, gan nad yw'r ddarpariaeth gyfredol yn bodloni'r galw am leoedd bob tro.

Mae'r awdurdod lleol yn cynllunio'n briodol ar gyfer addysg feithrin drwy gyfuniad o ysgolion a gynhelir ac ychydig o leoliadau nas cynhelir. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn yn darparu cyfleoedd addas i rieni a gofalwyr ddewis darpariaeth yn eu hardal leol. Fodd bynnag, gall y galw uchel hanesyddol am leoedd ar gyfer darpariaeth feithrin mewn ychydig o ardaloedd yn y ddinas gyfyngu ar y dewis i rieni a gofalwyr, yn enwedig y rhai sy'n dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r tîm RhTY yn gwerthfawrogi mewnbwn rhanddeiliaid allweddol, fel Mudiad Meithrin a sefydliadau eraill, i helpu sefydlu trefniadau gofal cofleidiol wrth gynllunio ysgolion newydd. Gwnânt ddefnydd da o gysylltiadau sefydledig rhwng y tîm a gweithwyr proffesiynol allweddol ar draws yr awdurdod lleol, asiantaethau eraill a grwpiau cymunedol i werthuso anghenion cymunedau. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ag ystod addas o randdeiliaid wrth ymgymryd â gwerthusiad o wasanaethau addysg a chymunedol mewn rhannau penodol o'r ddinas. Mae'r gwaith hwn yn helpu'r awdurdod lleol i fodloni ei ddyhead i sicrhau bod ysgolion yn rhan annatod o'u cymunedau ac yn helpu bodloni anghenion lleol.

**Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â phartneriaid (a phobl ifanc) drwy 'Addewid Caerdydd' i fodloni ei uchelgais bod pob dysgwr yn symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ôl-16?**

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu gweledigaeth strategol sy'n cael ei deall yn dda ac sydd wedi'i llywio gan ymchwil i gefnogi ymgysylltiad ieuenctid a dilyniant i bobl ifanc ar ôl iddynt adael yr ysgol. Mae arweinyddiaeth wleidyddol a gweithredol gref o ran 'Addewid Caerdydd', drwy gynghrair uchelgeisiol ledled y ddinas, wedi ennyn cefnogaeth sylweddol gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys uwch arweinwyr busnesau, ysgolion a cholegau.

Bu Addewid Caerdydd yn gyfrwng grymus ar gyfer denu buddsoddiad gan fusnesau a diwydiant mewn cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc. Mae nodau'r strategaeth hirdymor hon wedi esblygu'n addas er mwyn ymateb i flaenoriaethau addysgol cenedlaethol a heriau'r pandemig.

Mae arweinyddiaeth strategol gref wedi sicrhau bod blaenoriaethau Addewid Caerdydd yn alinio’n agos â nodau rhanbarthol drwy waith Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hyn wedi cynhyrchu strategaeth effeithiol, gydlynus sydd o fudd i bobl ifanc. Mae’r fframwaith llywodraethu’n integreiddio blaenoriaethau Addewid Caerdydd ar draws cyfarwyddiaethau’r cyngor ac wedi gwella dealltwriaeth swyddogion o ofynion cyflogwyr o ran medrau, yn enwedig mewn sectorau twf newydd fel seiberddiogelwch. Mae tîm Addewid Caerdydd yn cynnal digwyddiadau hyfforddiant defnyddiol i bartneriaid sy’n helpu datblygu eu dealltwriaeth o’r rhwystrau a’r heriau mae pobl ifanc yn eu hwynebu, yn enwedig yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas.

Yn bwysig, mae grŵp llywio gweithredol Addewid Caerdydd yn cynnal trosolwg da o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau. Mae eu harweinyddiaeth weithredol yn gryf ac mae eu gwaith yn ymestyn yn eang. Mae partneriaid ac ysgolion yn gwerthfawrogi eu harbenigedd a’u cymorth. Gan arwain drwy esiampl, mae gwasanaethau mewnol yr awdurdod lleol yn gweithio â’i gilydd yn llwyddiannus i gynnig cyfleoedd gwerthfawr niferus i bobl ifanc, fel prentisiaethau, profiad gwaith, gwirfoddoli, hyfforddeiaethau a swyddi.

Mae’r awdurdod lleol yn cyfathrebu’n llwyddiannus iawn ag ysgolion, pobl ifanc a phartneriaid drwy gyfryngau sy’n cynnwys gwefan ddynodedig Addewid Caerdydd, y platfform ‘Beth nesaf?’, tudalennau cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau cyson. Mae hyn yn galluogi swyddogion i sicrhau bod ysgolion a darparwyr eraill yn ymwybodol o’r cyfleoedd eang sydd ar gael i bobl ifanc a brocera partneriaethau sy’n bodloni anghenion unigol ysgolion. Mae mentrau, fel wythnosau ‘Agor eich llygaid’, wedi cynorthwyo uwch arweinwyr a staff mewn ysgolion i ddatblygu eu gwybodaeth am y medrau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, yn ogystal â rhoi mewnwelediad gwerthfawr i ddisgyblion cynradd i ystod eang o yrfaoedd a dysgu pellach.

Er bod y dull hwn yn gymharol newydd, mae’r fforwm busnes ysgolion eisoes yn gwneud gwahaniaeth i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd. Mae cyfarfodydd strategol bob tymor rhwng cyflogwyr ac uwch arweinwyr ysgolion yn cyfarwyddo’r gwaith hwn yn llwyddiannus. Maent yn nodi llwybrau dysgu addas ac yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau gwerthfawr yn gysylltiedig â gwaith yn y cwricwlwm. Nid yw prosesau’r awdurdod lleol ar gyfer sicrhau bod partneriaid gwella’r consortiwm yn cynorthwyo ac yn herio ysgolion mewn perthynas â’r disgyblion hynny sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn gwbl ymwybodol o Addewid Caerdydd ac yn ei gefnogi, wedi’u datblygu cystal.

Mae diwylliant iach o drafod a myfyrio rhwng partneriaid amrywiol ar lefelau gwahanol o’r gwaith yn rhoi adborth defnyddiol sy’n llywio cynllunio effeithiol ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae cynnal grwpiau ffocws â grwpiau o ddisgyblion, fel y rhai sy’n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, wedi helpu’r awdurdod lleol i ddeall yn well sut i deilwra profiadau i’w hanghenion. Mae’r bartneriaeth hefyd yn elwa ar wybodaeth sy’n cael ei chasglu am y farchnad lafur yng Nghaerdydd gan y gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd i dargedu adnoddau a sicrhau bod prosiectau’n berthnasol i bobl ifanc.

Mae gwelliannau o ran adnabod ac olrhain dysgwyr cyn-16 y nodir eu bod yn fregus, y rhai sy’n gadael Blwyddyn 11 a phobl ifanc ôl-16 yn golygu bod yr awdurdod lleol a’i bartneriaid mewn sefyllfa well i gynnig cymorth amserol ac unigol. Er enghraifft,

mae'r fforwm pontio amlasiantaeth wythnosol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i fynd i'r afael ag anghenion cynyddol pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn benodol, mae mentoriaid ieuenctid yn chwarae rôl gref o ran eu cefnogi wrth bontio i Goleg Caerdydd a'r Fro.

Mae'r awdurdod lleol yn deall bod graddfa gynyddol y partneriaid a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy Addewid Caerdydd, ynghyd ag effaith y pandemig, yn achosi heriau ar gyfer rheolaeth strategol yr agwedd hon ar ei waith. Mae swyddogion yn cydnabod yr angen i adolygu darpariaeth i sicrhau bod dysgwyr bregus sydd yn y perygl mwyaf o beidio â symud ymlaen i gyrchfan ôl-16, neu gynnal cyrchfan ôl-16, yn elwa ar y cymorth a'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig. Maent hefyd wedi nodi'r angen i sicrhau arlwy deg, sydd wedi'i deilwra'n briodol i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion arbennig a'r uned cyfeirio disgyblion drwy Addewid Caerdydd.

Dros amser, bu'r awdurdod lleol yn hynod effeithiol o ran cydlynu'r gallu i bobl ifanc fanteisio ar gyngor gyrfaoedd, profiadau yn gysylltiedig â gwaith a llwybrau dysgu drwy waith partneriaeth llwyddiannus rhwng darparwyr addysg a'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Bu hyn yn hollbwysig o ran codi dyheadau plant a phobl ifanc ar draws y ddinas.

Er gwaethaf y pandemig COVID-19, mae ffocws cryfach yr awdurdod lleol ar bontio ôl-16 drwy waith Addewid Caerdydd wedi parhau i gael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o ddysgwyr o ran eu cynorthwyo i fanteisio ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

**Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn bodloni anghenion addysgol plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg a Saesneg fel iaith ychwanegol?**

Mae gan yr awdurdod lleol Wasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr sefydledig sy'n goruchwylio cymorth i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r gwasanaeth wedi addasu ei flaenoriaethau'n briodol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i helpu mynd i'r afael â'r patrwm cyfnewidiol o gymorth sydd ei angen ar ysgolion, disgyblion a'u cymunedau. Mae swyddogion yn hwyluso cyfleoedd rheolaidd i rannu arfer effeithiol ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ac yn defnyddio syniadau buddiol gan awdurdodau eraill i gryfhau eu gwaith. Er enghraifft, mae swyddogion wedi addasu darpariaeth gref mewn ymgysylltu â theuluoedd, sy'n cael ei defnyddio mewn awdurdod lleol arall yng Nghymru, i gryfhau eu cyngor i ysgolion yn y maes hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn dosbarthu cyllid grant i ysgolion ar sail yr arolwg 'Asesiad Anghenion' blynyddol o gaffael iaith disgyblion. Mae'n dyrannu bron y cyfan o'r grant yn uniongyrchol i ysgolion i'w galluogi i ddewis sut i gefnogi eu disgyblion. Mae ysgolion o'r farn bod hon yn ffordd fuddiol o ddosbarthu cyllid, gan ei bod yn eu galluogi i gyflogi staff i ddarparu cymorth pwrpasol i ddisgyblion yn eu cymunedau penodol. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio gweddill y grant i ariannu tîm bach o weithwyr proffesiynol yn ganolog, gan gynnwys swyddogion 'Cau'r Bwlch' sydd wedi'u dyrannu i bob rhan o'r ddinas. Mae un o'r swyddogion hyn yn gweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bennaf i oruchwylio eu darpariaeth i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel iaith ychwanegol. Mae'r tîm yn ymateb yn gyflym os oes angen cymorth di-oed ar ysgol. Er enghraifft, pan gafodd un ysgol gynradd nifer fawr o ddisgyblion Tsieineaidd, cynorthwyodd y tîm canolog yr ysgol i ddod o hyd i

wirfoddolwyr i weithio â'r disgyblion hyn yn eu mamiaith. At ei gilydd, mae ysgolion yn teimlo bod gwaith y tîm canolog yn llwyddiannus dros ben o ran eu helpu i gefnogi disgyblion a staff yn effeithiol.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi arweiniad a chymorth defnyddiol i ysgolion ar sut i ddefnyddio eu cyllid grant. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn monitro'n rheolaidd sut mae'r holl ysgolion yn gwario eu gwant a'i effaith gyffredinol ar wella deilliannau a lles disgyblion.

Mae darpariaeth yr awdurdod lleol i gefnogi disgyblion y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn newydd iddynt yn effeithiol. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n mynychu dwy uned drochi iaith yr awdurdod lleol, sef un uned gynradd ac un uned uwchradd, yn gwneud cynnydd da o ran dod yn hyderus mewn defnyddio'r Gymraeg. O ganlyniad, ar ôl cyfnod priodol yn yr uned, mae'r disgyblion hyn yn manteisio ar y cwricwlwm cyfrwng Cymraeg prif ffrwd yn llwyddiannus. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r ddarpariaeth yn gymorth ychwanegol i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg y mae'r cyfnodau clo wedi cael effaith negyddol arnynt, er mwyn helpu gwella eu medrau Cymraeg.

Mae swyddogion yn trefnu digwyddiadau hyfforddiant rheolaidd i staff ysgolion ar themâu perthnasol, er enghraifft ar ailymgysylltu â disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ar ôl y cyfnod clo, a chefnogi lles ceiswyr llocher, ffoaduriaid a newydd-ddyfodiaid. Maent yn defnyddio'r digwyddiadau hyn i hwyluso rhannu arfer dda drwy wahodd ysgolion i arddangos eu gwaith.

O ganlyniad i'r cymorth a'r arfer gref hon, mae llawer o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn cyflawni'n dda o gymharu â'u cyfoedion, yn enwedig erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig lefel uchel o gymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cyrraedd yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth hynod effeithiol ar gyfer anghenion addysgol plant sydd newydd gyrraedd drwy drefnu cyfleoedd dysgu iddynt yn gyflym. Er enghraifft, cyn pen pythefnos o gyrraedd y ddinas yn ddiweddar, cydlynydd swyddogion addysgu ar gyfer grwpiau mawr o blant o Affganistan. Mae hyn yn cynnwys ffoaduriaid sy'n cael eu lletya yng Nghaerdydd cyn iddynt gael eu gwasgaru i rannau eraill o Gymru. Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio ag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i ryddhau athrawon sy'n siarad ieithoedd perthnasol i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Caiff y cymorth hwn naill ai ei gynnig yn ei lety neu yn yr ysgol, lle mae'n bosibl gwneud hynny.

**Pa mor dda mae gwasanaethau addysg yn gweithio â chyfarwyddiaethau a phartneriaid eraill i gynnig cymorth i wella deilliannau addysg a lles plant sy'n derbyn gofal?**

Mae'r gwerthusiadau yn yr adran hon o'r adroddiad yn darparu cyd-destun drwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig, neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae'r sail dystiolaeth yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall am o leiaf y saith mlynedd diwethaf. Caiff y mwyafrif ohonynt eu haddysgu mewn ysgolion yng Nghaerdydd neu ddarparwyr eraill yn yr awdurdod lleol. Mae'r

awdurdod lleol wedi cryfhau ei systemau ar gyfer cipio gwybodaeth am berfformiad addysgol ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Dros amser, mae perfformiad plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n gyffredinol, ond mae'n fwy amrywiol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn sylweddol is na phlant nad ydynt yn derbyn gofal.

Mae'r strategaeth rhianta corfforaethol a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwaith rhwng cyfarwyddiaethau yn yr awdurdod lleol a phartneriaid. Yn bwysig, rhannodd plant a phobl ifanc eu safbwyntiau, pryderon a dyheadau ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bum mater allweddol sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gwella lles emosiynol ac iechyd corfforol plant sy'n derbyn gofal, gwella eu cyflawniad addysgol, cyflogaeth a hyfforddiant, a darparu cartrefi cysurus, diogel a sefydlog iddynt.

Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n dda â chyfarwyddiaethau eraill a phartneriaid i gynnig cymorth i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r strategaeth rhianta corfforaethol yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu cynhwysfawr sy'n amlinellu'n glir y cyfrifoldebau ar draws cyfarwyddiaethau fel addysg, tai a gwasanaethau plant, ac asiantaethau partner gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Heddlu De Cymru. Yn ddiweddar, mae aelodau etholedig wedi cael diweddariad ar weithgarwch sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau yn y strategaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud yn gyffredinol â gweithgarwch yr ymgymerwyd ag ef, ac nid yw'r effaith uniongyrchol ar blant sy'n derbyn gofal yn glir bob tro.

Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu grŵp gweithredol rhianta corfforaethol. Nod y grŵp hwn yw cynnig atebion amlasiantaeth, amlddisgyblaethol i'r blaenoriaethau a nodwyd yn y strategaeth rhianta corfforaethol. Mae swyddogion yr awdurdod lleol o'r gwasanaethau addysg a phlant yn cyfarfod o leiaf bob mis ac yn trafod meysydd gwaith allweddol, gan gynnwys achosion unigol. Yn bwysig, maent yn rhoi diweddariadau rheolaidd i aelodau etholedig ar agweddau gwahanol ar eu gwaith ac yn rhoi gwybod i aelodau am bwysau ar y gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol. Mae creu dangosfwrdd perfformiad wedi helpu swyddogion yn hyn o beth. Mae aelodau etholedig yn deall eu rôl o ran rhiant corfforaethol ac yn cyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae'r gyfarwyddiaeth addysg wedi cymryd cyfrifoldeb am gwblhau cynlluniau addysg personol, ac mae hyn wedi cynyddu'r gyfradd gwblhau yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn cipio ac yn gwerthuso data ar les a dilyniant dysgwyr yn systematig. Yn yr un modd, er bod yr awdurdod lleol yn cydweithio'n agos â'r consortiwm rhanbarthol i ddyrannu'r grant datblygu disgyblion i blant sy'n derbyn gofal, nid yw'r awdurdod lleol yn gwerthuso ansawdd cyffredinol cynllunio ac effaith defnyddio'r grant.

Mae'r awdurdod lleol yn dathlu llwyddiannau unigol plant a phobl ifanc drwy'r Gwobrau Bright Sparks. Mae hwn yn ddigwyddiad cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc o ystod o ddarpariaeth, gan gynnwys darparwyr y tu allan i'r sir.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi creu capasiti staffio ychwanegol ac wedi penodi pedwar mentor dysgu i weithio â phlant sy'n dod at ddiwedd eu haddysg statudol, ac athro cynhwysiant i gefnogi datblygiad cynlluniau unigol i blant ag

anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn adeiladu ar gymorth a ffurfiolwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac a gipiwyd mewn addewidion tîm ar gyfer darpariaeth i blant sy'n derbyn gofal.

Dros amser, mae'r awdurdod lleol wedi meithrin perthynas gref a gwerthfawr â'r sefydliadau mae'n eu comisiynu i ddarparu addysg i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi fframwaith sicrhau ansawdd i ddarparwyr ac yn cael trafodaethau â nhw am ddarpariaeth y cwricwlwm, cynllunio ar gyfer dilyniant disgyblion a hunanwerthuso. Mae'r awdurdod lleol yn amlinellu'n glir ystod y wybodaeth y mae'n disgwyl i ddarparwyr adrodd arni mewn perthynas â darpariaeth addysg a chynnydd disgyblion. Mae cyfathrebu rhwng swyddogion a darparwyr yn rheolaidd ac yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae swyddogion yn cynnig her briodol i newidiadau mewn darpariaeth ac o ran trafod deilliannau ymweliadau Estyn â darparwyr. Yn ogystal â'r fframwaith sicrhau ansawdd, mae darparwyr yn elwa ar y pecyn cymorth hunanwerthuso diogelu a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw cymorth gan yr awdurdod lleol i blant sy'n derbyn gofal ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon amserol. Er bod yr awdurdod lleol yn cydweithio'n agos â darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, mae cofnodion monitro systematig o ddarparwyr unigol yn anghyson.

Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu canolfan asesu breswyl sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae plant yn mynychu am gyfnod byr tra caiff eu hanghenion iechyd, addysg a lles eu hasesu. Y bwriad yw y bydd y dull hwn yn llywio'r gwaith o baru anghenion unigolion â lleoliadau yn y dyfodol. Er bod y datblygiad hwn yn un cadarnhaol ac yn arwydd o fwriad yr awdurdod lleol i deilwra darpariaeth hirdymor i blant sy'n derbyn gofal, nid yw effaith y ddarpariaeth newydd hon wedi'i chadarnhau hyd yn hyn.

**Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn defnyddio gwaith ieuenctid i gefnogi pobl ifanc?**

Mae gwasanaeth ieuenctid Caerdydd yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel mewn ardaloedd blaenoriaeth yn y ddinas, sy'n cynnwys cymysgedd o waith mynediad agored a gwaith wedi'i dargedu. Mae pobl ifanc, yn yr ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu, wrth wraidd datblygu gwasanaethau.

Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â chwe darparwr partner gwaith ieuenctid a chymunedol, sy'n cyfoethogi'r arlwy i bobl ifanc. Mae amrywiaeth eang o ddarpariaeth sy'n bodloni meysydd blaenoriaeth lleol a chenedlaethol allweddol ar gyfer gwaith ieuenctid. Er enghraifft, mae mentoriaid ieuenctid yn gweithio mewn ysgolion uwchradd i gefnogi'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r gwasanaeth ieuenctid hefyd yn cynnig cymorth i bobl ifanc sy'n ddigartref. Mae cymorth i iechyd a lles emosiynol pobl ifanc yn arbennig o gryf.

Mae gweithwyr ieuenctid yn hyblyg, yn ddyfeisgar ac yn dra chymwys ar gyfer yr amyriwaeth eang o rolau maent yn eu cyflawni. Mae gwaith partneriaeth cryf a sefydledig, fel gyda chyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol a thrwy dddatblygu grwpiau gweithredu ieuenctid.

Darparodd gweithwyr ieuenctid lefel uchel o gymorth i bobl ifanc a gwasanaethau addysg yn ystod y cyfnodau clo. Gweithiont ochr yn ochr â chydweithwyr eraill i gynnig cymorth gwerthfawr i bobl ifanc y nodwyd y byddant yn debygol o elwa ar ddarpariaeth hybiau mewn ysgolion. Lle'r oedd yn briodol, cynhaliodd gweithwyr ieuenctid ymweliadau rheoledig â chartrefi a chludo dros ddwy fil o barseli bwyd i deuluoedd. Roedd y gwasanaeth ieuenctid yn ystwyth wrth addasu ei ddarpariaeth i fodloni anghenion pobl ifanc yn well. Pan gaeodd canolfannau ieuenctid, gwnaeth gweithwyr ieuenctid waith allgymorth a helpodd timau i reoli digwyddiadau'n cynnwys gangiau o bobl ifanc.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi datblygu arlwy arloeosol o waith ieuenctid digidol, sy'n darparu gwaith ieuenctid effeithiol i ystod ehangach o bobl ifanc yn y ddinas. Caiff y gwaith hwn ei arwain gan bobl ifanc, a gydweithiodd yn effeithiol â gweithwyr ieuenctid a datblygwyr gwe i greu gwefan bwrpasol sy'n addas i bobl ifanc ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid. Cydweithiont â phartneriaid a phenderfynu ar y cynnwys a'r platfform digidol mwyaf priodol ar gyfer gweithgareddau ar-lein. Mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod gwerth y dull hwn ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu'r agwedd hon ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid ymhellach.

Caiff pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig o'r ddinas eu targedu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cynnig gallu cyfyngedig i bobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol ehangach ar draws y ddinas fanteisio arno. O ganlyniad, nid yw pob unigolyn ifanc yn cael yr un cyfleoedd i elwa ar ddarpariaeth y gwasanaeth ieuenctid neu'r cymorth y mae gweithwyr ieuenctid yn ei gynnig.

Caiff gwasanaethau gwaith ieuenctid eu gwerthfawrogi'n fawr gan y rhai sy'n eu derbyn. Yn gyffredinol, nid yw gormod o arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr a phartneriaid ehangach yn deall ehangder a photensial llawn y gwaith hwn o ran cefnogi pob unigolyn ifanc.

Mae enghreifftiau da o unigolion yn defnyddio'r Gymraeg â phobl ifanc fel rhan o'r arlwy gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn defnyddio staff Cymraeg eu hiaith yn effeithiol i gyfoethogi ac ehangu arlwy'r gwasanaeth ieuenctid. At ei gilydd, nid oes arlwy ragweithiol ddigonol i bobl ifanc ymgysylltu â'r Gymraeg, ac nid yw gwaith ieuenctid mynediad agored drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i integreiddio'n dda mewn darpariaeth brif ffrwd.

Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi cyfeirio cyllid ychwanegol i gefnogi mentrau amrywiol i ymgysylltu â phobl ifanc a gwella eu hiechyd a lles er mwyn ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd y mentrau hyn yn y dyfodol yn ansicr oherwydd y ddibyniaeth ar gyllid grant am gyfnod cyfyngedig o ffynonellau allanol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o ddarpariaeth. Mae trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn effeithiol. Mae cynlluniau strategol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yn alinio'n dda â blaenoriaethau'r cyngor ac yn adlewyrchu ymrwymiad y cyngor i ddinas sy'n dda i blant. Yn ogystal, mae aelodau Fforwm Ieuenctid Caerdydd yn eistedd ar nifer o bwyllgorau craffu.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae uwch arweinwyr yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer pob dysgwr yn feiddgar ac yn glir gan gyfleu bod ‘addysg yn bwysig i bawb’ yn ‘Uchelgais y Brifddinas’. Trwy’r ‘Uchelgais Prifddinas’, mae arweinydd y cyngor, aelod y cabinet a’r prif weithredwr yn pennu disgwyliadau uchel ar gyfer swyddogion, ysgolion a darparwyr eraill drwy roi ystyriaeth briodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Un o gryfderau amlwg yr awdurdod lleol yw’r gwaith â phartneriaid o fewn a’r tu hwnt i’r cyngor i gyflawni strategaethau allweddol yn effeithiol, gan gynnwys Addewid Caerdydd. Mae’r cyfarwyddwr addysg yn cefnogi’n llawn y weledigaeth strategol a’r blaenoriaethau sydd wedi’u hamlinellu yng ngweledigaeth ‘Caerdydd 2030’ a’r ymgyrch tuag at y strategaeth Dinas sy’n Dda i Blant. Mae uchelgeisiau corfforaethol yn llywio gwaith y tîm addysg yn berthnasol, ynghyd â blaenoriaethau penodol sydd wedi’u nodi o fewn y gyfarwyddiaeth.

Mae’r pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn darparu craffu cryf ac amserol ar nifer o faterion perthnasol y mae addysg yn yr awdurdod lleol yn eu hwynebu, gan gynnwys cynigion sensitif yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion ac ystod o wasanaethau cymorth i ysgolion. Mae swyddogion, a phartneriaid gwadd, yn darparu adroddiadau clir a defnyddiol i’r pwyllgor. Mae uwch swyddogion yn cynorthwyo’r pwyllgor ymhellach drwy ddarparu eglurder a gwybodaeth ychwanegol berthnasol yn ystod cyfarfodydd a’r cyfnod cyn craffu. Mae’r pwyllgor craffu’n dilyn trywydd meysydd sydd â ffocws yn ei raglen waith ac yn ysgrifennu at yr aelod cabinet i fynegi ei arsylwadau gydag argymhellion heriol addas. Bu hyfforddiant i aelodau craffu yn fuddiol dros amser, ac mae’r cadeirydd ac aelodau’r pwyllgor wedi manteisio ar arweiniad defnyddiol ar eu rôl o o ran craffu a herio perfformiad neu bolisi. Er 2018, mae’r pwyllgor wedi cynnwys cynrychiolydd o’r fforwm ieuenctid sy’n dod â safbwynt defnyddiol i drafodaethau craffu. Yn ystod y pandemig, cydweithiodd cadeirydd y pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn effeithiol â’r pedwar cadeiryddion craffu eraill, gan sicrhau bod addysg wrth wraidd penderfyniadau hanfodol yn ymwneud â COVID-19.

Mae ymrwymiad cryf aelodau etholedig a swyddogion ar bob lefel i gefnogi pobl ifanc a’u teuluoedd yn amlwg iawn. Aliniodd y cyfarwyddwr cynorthwyol addysg a’i gywerth sy’n gyfrifol am iechyd a diogelwch eu gwaith yn effeithiol ar hyd y pandemig. O ganlyniad, gallant ymateb yn gyflym i anghenion ysgolion a darparwyr eraill erbyn hyn wrth i’r sefyllfa o ran COVID-19 newid. Caiff y gefnogaeth hon ei pharchu’n fawr gan arweinwyr ysgolion a lleoliadau. Yn ystod y cyfnod hwn, mae swyddogion wedi meithrin perthynas gryfach a mwy cydweithredol ag arweinwyr ysgolion. Trwy’r gwaith hwn, maent wedi meithrin ymddiriedaeth ac wedi darparu sail gadarn ar gyfer gwaith gwella cydweithredol pwrpasol yn y dyfodol.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn deall yn dda yr heriau eang y mae’r gwasanaeth addysg yn eu hwynebu. Maent yn cydnabod ei bod yn adeg amserol i adnewyddu’r weledigaeth deng mlynedd “Caerdydd 2030”, yn enwedig oherwydd y newidiadau mewn addysg oherwydd y pandemig, ac wedi cymryd camau cynnar i wneud hynny. Gan mwyaf, mae gan uwch swyddogion rolau a chyfrifoldebau clir sy’n gysylltiedig â gweithgareddau ar draws y gyfarwyddiaeth, ac maent yn cyflawni’r swyddogaethau hyn yn dda. Yn gyffredinol, mae timau gwasanaeth yn cyflawni eu gwaith yn fwriadus ac yn effeithiol. Mewn ychydig o achosion, nid yw timau’n casglu gwybodaeth berthnasol gan ysgolion, fel gwariant cyllid grant, i werthuso effaith eu

gwaith neu ddiwygio cynlluniau eu timau'n berthnasol. Mewn ychydig o achosion, nid yw llinellau atebolrwydd yn ddigon clir, er enghraifft o ran arweinyddiaeth strategol ar bob agwedd ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a datblygiad cyffredinol y Gymraeg ar draws ysgolion yng Nghaerdydd.

Mae ymrwymiad corfforaethol cryf i hunanwerthuso agored, rheolaidd a thrylwyr i gefnogi cynllunio ar gyfer gwella, ac mae hyn yn amlwg yn yr ymagwedd ffocysedig tuag at hunanwerthuso blaenoriaethau strategol yn y gyfarwyddiaeth addysg. Mae gwerthusiad y gyfarwyddiaeth ei hun o gynnydd yn erbyn ei blaenoriaethau yn cytuno'n gyffredinol â chanfyddiadau'r arolygiad hwn, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn adroddiad lles blynyddol diweddaraf Caerdydd hefyd.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal cynnydd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a amlygwyd yng ngwaith arolygu diwethaf Estyn â'r awdurdod lleol yn 2016.

Ers yr arolygiad hynod feirniadol o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Ngorffennaf 2020, mae'r awdurdod lleol wedi penodi cadeirydd annibynnol allanol ar gyfer y gwasanaethau ac wedi cynyddu'r gallu llywodraethu ac arweinyddiaeth. Mae'r awdurdod lleol wedi cynnig sicrwydd ynghylch y materion addysgol penodol niferus sy'n ymwneud â chefnogi plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid oes gan arweinwyr mewn meysydd gwasanaeth perthnasol fewnwelediad da i'r rhain nac amgyffrediad digon da o rôl y swyddog addysg.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol. Mae ystod o brosesau ar waith drwy'r flwyddyn sy'n sicrhau y caiff gwasanaethau addysg eu monitro'n ofalus, gan mwyaf. Er enghraifft, cyflwynwyd materion yn ymwneud â pherfformiad gwasanaethau a fasnachir, yn enwedig o ran sefyllfa'r gyllideb, mewn cyfarfod sicrwydd y tîm rheoli addysg hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol gyfredol, a thrafodwyd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r awdurdod lleol yn rheoli risgiau sy'n effeithio ar wasanaethau addysg yn dda, ac yn eu huwchgyfeirio a'u hisgyfeirio'n briodol yn y gofrestr risg gorfforaethol.

Mae'r awdurdod lleol yn ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid i lywio gwerthuso a chynllunio gwasanaethau addysg. Yn benodol, mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau dylanwad plant a phobl ifanc, yn enwedig drwy ei waith tuag at ddod yn 'ddinas sy'n dda i blant'. Er enghraifft, caiff tri chyngor mawr eu cynnal bob blwyddyn sy'n dod â phlant a phobl ifanc at ei gilydd, gan gynnwys y rhai bregus, o bob rhan o'r ddinas i archwilio thema benodol. Mae'r awdurdod lleol wedi hyfforddi swyddogion ac aelodau etholedig i ddeall hawliau plant ac ystyried eu safbwyntiau mewn prosesau penderfynu. Mae'r awdurdod lleol wedi addasu ei asesiadau effaith i gynnwys asesiad o'r effaith ar hawliau plant. Mae'r gyfarwyddiaeth addysg hefyd yn cydweithio'n effeithiol ag arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, gwasanaethau eraill yr awdurdod a phartneriaid allanol, ac yn rhoi ystyriaeth dda i'w safbwyntiau.

Mae ansawdd gwerthuso ar lefel gwasanaeth neu dîm yn rhy amrywiol. Nid yw'r swyddogion cyfrifol yn ystyried ystod lawn y wybodaeth sy'n berthnasol i'w gwasanaethau bob tro, neu nid yw eu gwerthusiadau'n ddigon miniog. O ganlyniad, nid yw swyddogion yn nodi meysydd i'w gwella ambell waith. Er enghraifft, nid yw swyddogion wedi gwerthuso gwaith partneriaeth â'r consortiwm rhanbarthol yn ddigon trylwyr i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion manwl yr awdurdod lleol yn ddigon da, nac wedi herio effaith y gwaith hwn dros amser yn drylwyr. Enghraifft arall yw, er

y bu deilliannau'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn wan ers sawl blwyddyn, nid yw hyn wedi'i godi mewn hunanwerthusiad na'i amlygu'n faes i'w wella.

Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau rheoli perfformiad sefydledig ar gyfer staff. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau corfforaethol, cyfarwyddiaethau a thimau. Hefyd, maent yn rhoi ystyriaeth briodol i amcanion dysgu proffesiynol swyddogion. Mae'r cyngor wedi gorchymyn y dylai pob swyddog ymgymryd ag e-ddysgu ar faterion cyfoes a phwysig, fel cam-drin domestig a thrais rhywiol, hawliau plant ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae academi Cyngor Caerdydd yn cynnig ystod o gyfleoedd defnyddiol i staff ar draws y sefydliadau ddatblygu eu medrau, er enghraifft mewn iaith arwyddion Prydain, mentora pobl ifanc a chyrsiau achredededig mewn arweinyddiaeth. Caiff dysgu proffesiynol pwrpasol ei gomisiynu hefyd, lle bo hynny'n briodol, er enghraifft ar agweddau penodol ar anghenion dysgu ychwanegol. Defnyddiwyd sesiynau galw heibio, wedi'u hwyluso gan uwch arweinwyr, yn effeithiol i roi gwybod i'r holl staff am ddatblygiadau strategol a gweithredol yn ystod cyfnod y pandemig.

Er bod arlwy gyfoethog o ddysgu proffesiynol ar gael i staff, nid yw olrhain ac adrodd ar effaith y cyfleoedd hyn yn systematig wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid oes gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth ddigon da o effaith dysgu proffesiynol ar unigol neu feysydd gwasanaeth.

Mae diogelu plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth uchel ar draws pob adran addysg. Mae dealltwriaeth gorfforaethol gref fod diogelu yn gyfrifoldeb pawb, a chaiff hyn ei adlewyrchu ym mholisïau ac arferion yr awdurdod lleol. Mae gan yr awdurdod lleol broses sicrhau ansawdd gadarn ar gyfer diogelu corfforaethol. Mae pob adran yn ymgymryd â hunanwerthusiad diogelu blynyddol ac yn ei ddefnyddio i greu eu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

Mae swyddogion diogelu'n cynnig lefel uchel o gymorth i ysgolion a darparwyr eraill, gan gynnwys hyfforddiant i unigolion diogelu dynodedig a llywodraethwyr, a diweddariadau ysgrifenedig rheolaidd. Maent yn ymateb yn gyflym i fynd i'r afael â phryderon gan ymarferwyr. Yn ogystal, mae gwaith hwb diogelu amlasiantaeth (MASH) Caerdydd yn effeithiol o ran cynnig cymorth i ysgolion ac ymdrin â phryderon. Mae gwaith y tîm Atal (Prevent) yn arbennig o werthfawr o ran cynnig hyfforddiant a chymorth parhaus i ysgolion i'w helpu i adnabod a yw plant a phobl ifanc yn cael eu denu i eithafiaeth neu'n cael eu radicaleiddio.

Mae'r pecyn ar-lein a ariennir gan yr awdurdod lleol, a gyflwynwyd yn ddiweddar i gofnodi pryderon diogelu, yn cael ei ddefnyddio ym mhob ysgol, gan y gwasanaeth ieuenctid a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn yr awdurdod lleol erbyn hyn. Mae'r system hon yn dechrau darparu dull mwy cyson o gofnodi a rhannu gwybodaeth ddiogelu.

Ar hyn o bryd, nid yw'r awdurdod lleol yn casglu data gan bob ysgol ar faterion pwysig, fel honiadau o fwlio ac ymdrin â nhw'n gadarnhaol ac, o ganlyniad, ni all swyddogion dadansoddi tueddiadau na mynd i'r afael â nhw.

Mae dyraniad adnoddau'r Cyngor yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir i wasanaethau addysg. Mae'r awdurdod lleol yn gwario mwy na'r asesiad ar sail dangosyddion ar gyfer gwasanaethau addysg, ac mae wedi cynyddu a diogelu

cyllidebau ysgolion yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol ar draws y cyngor. Mae gan yr awdurdod lleol raglen gyfalaf sylweddol hefyd yn ymwneud ag ysgolion, o ran adeiladu ysgolion newydd a buddsoddi yn ei ystâd ysgolion bresennol. Mae'r awdurdod lleol yn dirprwyo'r gyfran uchaf o'i gyllideb addysg i ysgolion o blith unrhyw gyngor yng Nghymru, ac mae ganddo ystod gynhwysfawr o gytundebau lefel gwasanaeth ar waith, gyda nifer fawr yn manteisio ar y gwasanaethau a ddarperir gan ysgolion.

At ei gilydd, rhagamcenir y bydd y gyllideb addysg wedi gorwario £1m erbyn diwedd 2021-2022, ac mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y bu dibyniaeth gynyddol mewn rhai ysgolion a rhai o dimau'r Gyfarwyddiaeth Addysg ar gyllid grant allanol, gwargedion neu Gyllid Caledi Covid i gynnal lefelau gwariant a staffio.

Cynyddodd balansau cyffredinol ysgolion yn sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021, er bod hyn yn bennaf oherwydd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf y cyllid ychwanegol hwn, roedd gan ddwy ysgol ddiffyg o hyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-2021, ac mae pedair ysgol wedi pennu cyllideb â diffyg ar gyfer 2021-2022.

Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau ar waith i gydweithio ag ysgolion sydd â diffyg, ac mae wedi ymyrryd yn briodol. Roedd y camau gweithredu hyn yn cynnwys tynnu'r gyllideb ddirprwyedig oddi wrth ysgol uwchradd, ac ailgyflwyno'r gyllideb ddirprwyedig wedi hynny ar ôl cael cymorth gan y cyngor.

Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n dda â'r fforwm cyllideb ysgolion mewn modd tryloyw. Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys cynrychiolwyr ysgolion i ystyried y fformiwla ariannu ysgolion a sut y gellir cryfhau cynlluniau ariannol tymor canolig ysgolion. Bydd y grwpiau gorchwyl yn trafod eu canfyddiadau ac argymhellion â'r fforwm cyllideb ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod nifer o heriau ariannol allweddol, yn rhannol oherwydd y pandemig COVID-19, ac mae'n cymryd camau priodol. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i gryfhau cynaliadwyedd gwasanaethau a fasnachir ac adolygu'r modelau busnes ar gyfer gwasanaethau arbenigol anghenion dysgu ychwanegol, gwasanaethau seicoleg addysg, prydau ysgol a hyfforddiant cerddoriaeth.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, ar sail hunanwerthusiad yr awdurdod, ei gynlluniau strategol a data perthnasol y mae Estyn yn ei gadw
- yn dadansoddi'r deilliannau o holiaduron agored, gan gynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag amrywiaeth o bartneriaid perthnasol gwasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynir i'r cyngor neu'r swyddogaeth graffu, gwybodaeth am ddiogelu dysgwyr ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol y mae Estyn yn ei chadw

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn rhoi copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol er mwyn iddo nodi unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau lle bo'r angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol..

Dyddiad cyhoeddi:  09/02/2022